**LGH-09-00 (min)w**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 13 Medi 2000 |
| **Amser:** | 9.30am i 12.45pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| (Yr Ysgrifennydd Cynulliad | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| David Davies | Mynwy (ac eithrio eitemau 8 a 9) |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr (ac eithrio eitemau 8 a 9) |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Syr Harry Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 4) |

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Russell Goodway | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 4) |
| Colin Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 4) |
| Ian Miller | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 4) |
| Ian Thomas | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 5) |
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol (eitemau 3 i 7) |
| Peter Harding | Yr Isadran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 3) |
| Peter Fullerton | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol (eitem 5) |
| Kate Cassidy | Yr Isadran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 6) |
| Norma Barry | Yr Isadran Perfformiad a Chyllid Tai (eitem 7) |
| Howard James | Yr Isadran Perfformiad a Chyllid Tai (eitem 7) |
| John Bader | Yr Isadran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 8) |
| Lynda Attwell | Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru (eitem 8) |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Judy Wayne | Ymgynghorydd Arbenigol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf tymor yr hydref. Croesawodd Janet Davies yn arbennig, a oedd wedi cymryd lle Brian Hancock fel Aelod newydd o'r Pwyllgor.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Alison Halford.

1.2 Roedd Dai Lloyd yn bresennol ar ran Owen John Thomas.

**Eitem 2: Datganiad o Fudd**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanharri;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder mai hi yw Maer Cyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad gan yr Ysgrifennydd Cynulliad : LGH-09-00 (p.1W)**

3.1 Cyflwynodd Peter Law ei adroddiad i'r Pwyllgor. Rhoddodd fanylion i'r Aelodau yngln â'r cynigion ariannu dan y rhaglen Adran 180 newydd i ddelio â phobl sy'n ddigartref a'r rhai heb do uwch eu pennau a'r £3.6 miliwn a glustnodwyd i ddelio â phroblemau sy'n ymwneud â phobl ddigartref a thai lle mae nifer o bobl yn byw yn annibynnol ar ei gilydd. Teimlai'r Ysgrifennydd Cynulliad bod y rhaglenni hyn yn dangos ymrwymiad y Cynulliad i ddelio â phroblem pobl ddigartref gan sicrhau nad oes angen i neb yng Nghymru gysgu ar y stryd.

3.2 Dywedodd Peter Law fod ei benderfyniad ar drefniadau ariannu hir dymor 'Cefnogi Pobl' yng Nghymru wedi'i gyhoeddi ar 3 Awst. Byddai rhai elfennau allweddol o'r gyllideb yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol yn 2003 fel rhan o'r broses o gytuno ar refeniw llywodraeth leol, gan gadw'r Grant Refeniw Tai lle ceir Cymorth er mwyn diogelu'r gwasanaethau i denantiaid sy'n agored i niwed.

3.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod ar fin cyhoeddi dogfen ymgynghorol a fyddai'n nodi'r cynigion i newid y 'rheol cost isaf' sy'n cyfyngu ar y gostyngiad y gall tenant ei gael dan yr Hawl i Brynu Cadwedig. Addawodd y byddai'n darparu copi o'r ddogfen ymgynghorol i'r Aelodau ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ac addawodd y byddai'n cyflwyno papur gerbron y Pwyllgor ar ôl derbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

3.4 Mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawodd yr aelodau'r arian newydd i ddelio â phroblem pobl ddigartref a'r rhai heb do dros eu pennau a gwella amodau yn y sector rhentu preifat. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn datblygu strategaethau i ddelio â phobl ddigartref, ac awgrymwyd y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol chwarae rhan fwy rhagweithiol yn y maes hwn. Roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau bod yr arian hwn yn parhau hefyd, ac o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cefnogi a chynghori a allai gynorthwyo i

sicrhau nad yw pobl yn mynd yn ddigartref. Dywedodd Peter Harding fod archwiliad o wasanaethau cynghori tai yng Ngymru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

- O ran y cynigion ariannu ar gyfer 'Cefnogi Pobl', mynegwyd pryder yngln â'r goblygiadau ariannol pe byddai'r galw ar y gyllideb gyfyngedig oedd i'w throsglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol yn fwy na'r disgwyl. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ei fod yn trafod y mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Cyllid a gyda Llywodraeth y DU.

- Roedd yr Aelodau'n cefnogi cynigion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y broses o brynu a gwerthu tai yn fwy cyflym ac effeithlon, yn enwedig y cynnig i gyflwyno 'pecyn gwybodaeth i werthwyr'. Byddai'r newidiadau'n cynnwys deddfwriaeth eilaidd, a fyddai'n cael ei gwneud gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cymru a Lloegr. Byddai'r Mesur yn cynnwys gofyniad penodol fod yn rhaid ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol yngln â'r ddeddfwriaeth eilaidd arfaethedig, a nodwyd y byddai'n rhaid i'r ddeddfwriaeth honno ganiatau defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Awgrymwyd ei bod yn bosibl cyflwyno mesurau mwy radical i wella'r broses o brynu a gwerthu tai, megis 'siop-un-stop' electronig i helpu cyflymu'r broses.

- Mynegwyd pryder na lynwyd at yr amserlen ar gyfer y papur ymgynghorol ar y strategaeth dai genedlaethol. Dywedodd Peter Law ei fod wedi penderfynu gohirio'i gyhoeddi tan oddeutu diwedd mis Tachwedd oherwydd ei fod yn awyddus i'r papur adlewyrchu'r Gyllideb ddrafft.

- Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai'n adrodd yn ôl yngln â'i gyfarfod gyda'r Arglwydd Warner o Fwrdd Cyfiawnder yr Ifanc yn ystod y cyfarfod ar 18 Hydref. Nodwyd bod Cyfarwyddwr Gostwng Troseddau i Gymru wedi cychwyn yn ei swydd, a chefnogwyd awgrym y dylai roi cyflwyniad gerbron y Pwyllgor. Awgrymwyd y dylid cynnal trafodaeth ehangach yngln â swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol o ran gostwng troseddau.

- O ran yr ymgynghoriad yngln â'r fformwla Asesiad Gwariant Cyffredinol, mynegwyd pryder am effaith y fformwla newydd ar awdurdodau oedd yn rhai gwledig yn bennaf megis Sir Fynwy. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ei fod yn deall y pryderon hyn a'i fod yn ystyried beth fyddai'r cam nesaf ar gyfer y fformwla newydd gan ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Eitem 4: Yr achos dros fuddsoddi yng ngwasanaethau ac asedau llywodraeth leol – Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: LGH-09-00 (p.2W)**

4.1 Dywedodd Syr Harry Jones fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn croesawu'r cyfle i gyflwyno'i hachos dros fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau llywodraeth leol gerbron y Pwyllgor. Er bod y gwasanaethau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar, rhoddwyd

blaenoriaeth i addysg, weithiau ar draul gwasanaethau eraill. Mynegwyd pryder yn arbennig yngln â chyflwr asedau llywodraeth leol megis ysgolion a thai, lle na fuddsoddwyd digon dros gyfnod hir. .

4.2 Yn dilyn yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr, daeth cyfle unigryw i newid ychydig ar y drefn fuddsoddi yng ngwasanaethau ac asedau llywodraeth leol, tra'n sicrhau na fyddai treth y cyngor yn codi mwy na 5 y cant bob blwyddyn a sicrhau bod adnoddau digonol ar gael fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau Ewropeaidd a grantiau eraill. Awgrymodd Syr Harry Jones y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynyddu maint y refeniw sy'n cael ei wario gan lywodraeth leol, yn ogystal â'r arian cyfalaf, yn unol â'r cynnydd yng nghyllideb y Cynulliad yn gyffredinol (8.9 y cant yn 2001-01, 8.2 y cant yn 2002-03 a 8.1 y cant yn 2003-04). Byddai'n anodd cyflawni'r targedau yn *betterwales.com*, cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol, heb fuddsoddi fel hyn mewn gwasanaethau lleol.

4.3 Dywedodd Russell Goodway y byddai cais y Gymdeithas yn cynnal cyfran cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol a glustnodwyd ar gyfer llywodraeth leol. Felly, teimlai ei fod yn becyn rhesymol a chytbwys a fyddai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol i gyflawni'r amcanion sy'n gyffredin rhyngddynt. Ategodd wrthwynebiad y Gymdeithas i'r cam o ddyrannu arian llywodraeth leol yn ôl deddfwriaeth, oedd yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i ddefnyddio disgresiwn ac yn tueddu i ganolbwyntio ar y symiau o arian a dderbyniwyd yn hytrach na'r canlyniadau a gafwyd.

4.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cefnogai'r Pwyllgor ddyheadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel a amlinellwyd yn y papur. Yn enwedig, roeddent yn awyddus i weld cynnydd sylweddol yn y buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol gyda chynnydd yn y dreth gyngor yn cael ei gyfyngu i 5 y cant ar y mwyaf bob blwyddyn. Roedd Aelodau'n awyddus i awdurdodau lleol allu parhau i gynnig yr amrywiaeth lawn o wasanaethau ac i gychwyn delio â'r gwaith cynnal ar gyfer asedau cyfalaf oedd heb ei wneud.

- Rhannai'r Aelodau bryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch dyrannu arian llywodraeth leol yn ôl deddfwriaeth. Dywedodd Russell Goodway fod y Gymdeithas yn cefnogi'r broses o ddatblygu cytundebau polisi rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol a fyddai'n clustnodi amcanion oedd yn gyffredin ac wedyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r polisi. Fodd bynnag, teimlai'r Pwyllgor y byddai'n rhaid bod yn ofalus wrth gyflwyno cytundebau polisi, o ystyried fod llawer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn bryderus ynghylch goblygiadau unrhyw gam cyffredinol i symud

oddi wrth ddyrannu arian yn ôl deddfwriaeth.

- O ran gallu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymyrryd ym materion awdurdodau unigol, tynnodd Syr Harry Jones sylw at y ffaith mai rôl y Gymdeithas oedd cynrychioli diddordebau'r holl awdurdodau lleol oedd yn aelodau. Roedd awdurdodau unigol lleol yn cadw'r hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, er enghraifft wrth osod eu cyllidebau. Dywedodd fod amrywiaeth eang yng nghynnydd y dreth gyngor yn y gwahanol awdurdodau ers ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, a dywedodd nad oedd yr un awdurdod lleol yng Nghymru wedi codi'r dreth gyngor yn fwy nag oedd ei angen mewn gwirionedd.

- Mewn perthynas ag effeithlonrwydd awdurdodau lleol, nodwyd fod y drefn gwerth gorau ar waith erbyn hyn. Roedd y drefn honno'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu holl wasanaethau neu swyddogaethau dros gyfnod o bum mlynedd. Dywedodd Colin Jones fod pob awdurdod wedi bod yn gweithio i ddelio â'r problemau a etifeddwyd ganddynt yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol. Mewn rhai achosion roedd hyn yn cynnwys Sefydliadau Gwasanaeth Uniongyrchol a oedd wedi bod yn fwy nag yr oedd yr awdurdodau unedol newydd yn gofyn amdanynt. Dywedodd Russell Goodway fod gwell telerau ac amodau gwaith ar gyfer y rhai hynny oedd yn cael eu cyflogi gan Sefydliadau Gwasanaeth Uniongyrchol nag ar gyfer gweithwyr cyfatebol yn y sector preifat a theimlai y dylai awdurdodau lleol osod esiampl o ran arferion cyflogi. Roedd pryder ymysg aelodau ynghylch y colledion a gafwyd gan rai Sefydliadau Gwasanaeth Uniongyrchol. Awgrymwyd efallai y byddai rhai awdurdodau lleol yn amharod i ddiswyddo staff lle mai hwnnw oedd y cam priodol i'w gymryd.

- Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu'r arian ychwanegol ar gyfer unrhyw newid i fformiwla asesiad gwariant cyffredinol uwchlaw lefel y cynnydd mewn grant a roed i lywodraeth leol.

- Nodwyd bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y per i ariannu unrhyw gynnydd mewn nawdd cyfalaf cyffredinol trwy roi grant yn hytrach na chaniatáu credyd, er y gallai Trysorlys Ei Mawrhydi bennu cosb ariannol pe byddai'r cydbwysedd yn newid yn ormodol. Gan ddibynnu ar y cyfyngiad hwn, cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cynulliad roi'r gyfran fwyaf posibl o arian cyfalaf ar ffurf grant cyfalaf er mwyn osgoi'r costau ychwanegol yn sgil benthyca oedd yn gysylltiedig â chaniatáu credyd.

4.5 Diolchodd y Cadeirydd i Syr Harry Jones a gweddill tîm Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu cyflwyniad. Dywedodd y byddai o gymorth i'r Pwyllgor pan fyddai'r amser yn dod i ystyried y Gyllideb ddrafft, a gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried barn y Pwyllgor wrth drafod gyda'r Ysgrifennydd Cyllid. Dywedodd Syr Harry Jones y byddai'r Gymdeithas yn barod iawn i ymddangos o flaen y Pwyllgor unrhyw bryd.

**Eitem 5: Uned Ystadegau Llywodraeth Leol: LGH-09-00 (tud.3)**

5.1 Cyflwynodd Peter Fullerton y papur, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sefydlu Uned Ystadegau Llywodraeth Leol. Yn dilyn ymarfer ymgynghori dywedodd y daethpwyd i benderfyniad i sefydlu'r Uned yn gynnar yn y flwyddyn nesaf. Hysbysebwyd swydd Pennaeth yr Uned yn ddiweddar, a rhoddwyd ystyriaeth i'r rhaglen waith gychwynnol. Roedd dull o weithredu gam wrth gam yn cael ei fabwysiadu i sefydlu'r Uned, a allai dyfu yn ôl y gofyn i gwrdd â'r angen am wybodaeth ystadegol yn y dyfodol. Byddai trefniadau ariannu'r Uned yn cael eu pennu yng nghyd-destun y rownd Gyllideb gyfredol.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gwelwyd cefnogaeth gyffredinol i greu'r Uned, a theimlai Aelodau y byddai hyn yn llenwi rhai o'r bylchau yn y wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer gwell dull o ffurfio polisi a thegwch wrth ddyrannu adnoddau. Roedd y Pwyllgor yn ei hystyried yn bwysig fod ystadegau ar gael a oedd yn berthnasol i anghenion Cymru, ac un o'r prif broblemau yr oedd angen eu hystyried oedd diffyg data ardal leol. Fodd bynnag, roedd un aelod o'r farn na ellid cyfiawnhau cost yr Uned.

- Roedd aelodau'n awyddus i'r Uned gychwyn ar ei gwaith cyn gynted â phosibl. Dywedodd Ian Thomas mai'r nod oedd gweld Pennaeth yr Uned yn cychwyn yn ei swydd erbyn 1 Ionawr fel y gallai'r Uned weithredu erbyn 1 Ebrill.

- Teimlai Aelodau ei bod yn hanfodol sicrhau fod yr Uned yn ddiduedd ac yn broffesiynol onest.

- Roedd angen sicrhau bod arian ar gael yn barhaus ar gyfer yr Uned. Dywedodd Adam Peat y byddai'r Uned yn derbyn grant rheolaidd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â nawdd haen uchaf o daliad terfynol refeniw llywodraeth leol. Byddai'r union swm yn cael ei benderfynu yn rownd y Gyllideb.

- Mynegwyd peth pryder nad oedd y papur yn nodi'n fanwl beth fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ddisgwyl oddi wrth yr Uned. Dywedodd Adam Peat y byddai hyn yn cael ei amlinellu yng Nghytundeb Lefel y Gwasanaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Uned, a fyddai'n cael ei lunio gan Bennaeth newydd yr Uned. Cadarnhawyd y byddai Aelodau'r Cynulliad yn cael gweld yr ystadegau a fyddai'n cael eu casglu gan yr Uned.

5.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried barn y Pwyllgor wrth sefydlu'r Uned Ystadegau Llywodraeth Leol newydd.

**Eitem 6: Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Gweithredu: LGH-09-00 (p.4W)**

6.1 Dywedodd Peter Law fod y papur wedi amlinellu'r broses ar gyfer gweithredu Deddf Llywodraeth Leol 2000 yng Nghymru. Roedd yn awyddus i ddwyn y Ddeddf i rym cyn gynted â phosibl, gyda 1 Mawrth 2001 fel targed ar gyfer cychwyn yr holl ddeddfwriaeth eilaidd wirioneddol. Cynhelid ymgynghoriad ar y canllaw drafft a'r rheoliadau dros y ddeufis nesaf. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai'n dosbarthu'r dogfennau ymgynghori i'r Pwyllgor pan fyddent yn cael eu cyhoeddi a byddai cyfle i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd.

6.2 Tanlinellodd Kate Cassidy nifer o feysydd polisi y ceisid barn arnynt yn ystod yr ymarfer ymgynghori oherwydd eu bod yn faterion lle'r oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i ddewis gweithredu'n wahanol neu rai oedd yn benodol i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad i wybodaeth, galw penderfyniadau gweithredol i mewn gan bwyllgorau arolygu ac archwilio, darpariaeth arbennig i bwyllgorau ardal sydd mewn bodolaeth yng Ngwynedd a'r trothwy ar gyfer deisebau ar gyfer meiri etholedig.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd y Pwyllgor y cynnig y dylid cael meini prawf arbennig a fyddai'n weithredol pan elwid penderfyniadau gweithredol i mewn gan bwyllgorau arolygu ac archwilio. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y gallai unrhyw aelod rhoi eitem ar agenda'r pwyllgor archwilio. Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith a fyddai pwyllgorau arolygu ac archwilio yn gallu galw penderfyniadau i mewn cyn iddynt gael eu gweithredu, a dywedodd Peter Law y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i hyn o beth.

- Teimlai rhai Aelodau y dylid cael trefn a fyddai'n caniatáu i bobl leol sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu galw i mewn gan bwyllgorau arolygu ac archwilio.

- Cefnogodd yr Aelodau'r cynnig i lunio rheoliadau a fyddai'n caniatáu i bwyllgorau ardal yng Ngwynedd barhau i weithredu. O dan y rheoliadau, ystyrid na fyddai'r pwerau a roddwyd i'r pwyllgorau hyn yn rhai gweithredol. Awgrymwyd y dylai'r rheoliadau fod yn ddigon cyffredinol i ganiatáu i awdurdodau lleol eraill fabwysiadu'r dull hwn os oeddent yn ystyried hynny'n addas. Dywedodd Peter Law y byddai'n ystyried pa bwerau fyddai ar gael i bwyllgorau ardal yn sgil y rheoliadau hyn.

- Cefnogodd Aelodau'r cynnig i godi'r gyfran o etholwyr oedd eu hangen ar ddeiseb i gefnogi maer etholedig o 5 y cant i 10 y cant. Awgrymwyd pe cyflwynid deiseb arall o

fewn amser penodol y dylid cynyddu’r trothwy ymhellach er mwyn osgoi gorfod mynd yn ôl at yr un mater yn barhaus.

- O ran strwythurau rheoli gwleidyddol nododd Aelodau, o ganlyniad i welliant hwyr i’r Mesur y byddai lle i ganiatáu i awdurdodau gadw strwythur pwyllgorau. Teimlid y dylid rhoi’r dewis hwn i awdurdodau lleol yng Nghymru ac y dylai hyn gael ei nodi’n arbennig yn yr ymarfer ymgynghori. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ei fod ef o’r farn fod math gweithredol o lywodraeth yn addas ar gyfer yr awdurdodau unedol yng Nghymru, ond roedd yn cydnabod y byddai’n rhaid iddo ystyried barn y Pwyllgor a rhoi ystyriaeth bellach i’r pwynt hwn.

- Nodwyd bod un o argymhellion ymchwiliad Waterhouse i achosion o gam-drin plant yng Ngogledd Cymru wedi cyfeirio at 'bwyllgor yr awdurdod lleol gyda chyfrifoldeb am blant’. Dywedodd Peter Law y byddai’n ystyried a ellid cryfhau’r canllaw drafft er mwyn amlinellu’n fwy manwl sut y gallai awdurdodau lleol ddelio â dyrannu cyfrifoldebau am wasanaethau i blant mewn angen o fewn y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

6.4 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried barn y Pwyllgor wrth weithredu Deddf Llywodraeth Leol 2000. O ystyried natur fanwl nifer o’r pwyntiau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai’n gwerthfawrogi derbyn sylwadau ysgrifenedig oddi wrth Aelodau. Cytunwyd y byddai’r Pwyllgor yn ystyried canlyniadau’r ymarfer ymgynghori yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd.

**Eitem 7: Trosglwyddo stoc tai – Canllaw drafft: LGH-09-00 (tud.5)**

7.1 Wrth gyflwyno’r papur, dywedodd Peter Law y byddai’n croesawu barn y Pwyllgor ar y canllaw drafft yngln â throsglwyddo stoc tai oedd wedi’i gyflwyno i awdurdodau lleol. Byddai’r canllaw drafft yn cael ei adolygu yn sgil yr ymarfer ymgynghori a chanlyniad adolygiad polisi’r Pwyllgor ar drosglwyddo stoc. Dywedodd Norma Barry fod y canllawiau wedi’u seilio ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau ond wedi’u tynhau a’u diwygio i adlewyrchu’r sefyllfa yng Nghymru.

7.2 Roedd yr Aelodau’r pryderu fod y canllawiau drafft wedi cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol tra bod adolygiad y Pwyllgor yngln â throsglwyddo tai ar waith. Teimlid y dylai’r Pwyllgor fod wedi cael un cyfle o leiaf i fynegi barn ar y canllawiau cyn iddynt gael eu dosbarthu. Dywedodd Peter Law ei bod yn bwysig cydnabod gwahanol swyddogaethau’r Pwyllgor a’r Gweithgor. Roedd rhaid i’r Cabinet allu dwyn ei bolisïau ymlaen ac roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn awyddus i sicrhau fod y canllawiau ar gael ar gyfer yr awdurdodau lleol y gwyddid eu bod yn ystyried cynlluniau trosglwyddo stoc. Fodd bynnag byddai am ystyried barn y Pwyllgor am y canllawiau yn ogystal â chanlyniad yr adolygiad polisi.

7.3 Codwyd y pwyntiau eraill hyn yn ystod y drafodaeth:

- Roedd Aelodau'n pryderu ynghylch effaith bosibl trosglwyddiadau stoc rhannol ar y tenantiaid yn y stoc oedd ar ôl. Dywedodd Adam Peat y byddai gofyn i gynghorau oedd yn bwriadu trosglwyddo rhan o'u stoc yn unig i baratoi cynllun yn amlinellu'r trefniadau rheoli ar gyfer y stoc oedd ar ôl er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw sgil effeithiau ar y tenantiaid. Awgrymodd Judy Wayne efallai y byddai'n briodol i gynnwys pennod ar wahân yn y canllaw ar drosglwyddiad stoc rhannol.

- Awgrymwyd y byddai'n briodol cryfhau'r cyfeiriadau at ddatblygiad cymunedol yn y canllaw. Un posibilrwydd oedd y dylid gofyn i awdurdodau lleol baratoi cynllun gweithredu manwl oedd yn amlinellu'r ffordd yr eid i'r afael â materion cymunedol, economaidd a chymdeithasol fel rhan o'r broses drosglwyddo. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai'n ystyried hyn.

- Awgrymwyd hefyd y dylid annog awdurdodau lleol i fuddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf gwarged mewn projectau adfywio cymunedol yn yr ardal. Dywedodd Peter Law mai'r awdurdodau lleol fyddai'n penderfynu sut i wneud y defnydd gorau o dderbyniadau cyfalaf oedd yn warged.

- O ran maint y stoc oedd yn cael ei drosglwyddo, awgrymwyd ei bod yn ymddangos fel pe bai'r canllawiau drafft yn ffafrio trosglwyddo ar raddfa fawr tra dylai fod yn bolisi i annog trosglwyddo ar raddfa lai a oedd yn gysylltiedig â chynllun strategol awdurdod ar gyfer ardal. Teimlid y byddai unedau rheoli llai wedi'u seilio ar gymunedau lleol yn gweithio'n well nag unedau canolog mwy mewn maint.

- Nodwyd y byddai'r landlord trosglwyddo'n gorfod dod â'r stoc oedd wedi'i drosglwyddo i fyny i safonau targed y Cynulliad Cenedlaethol. Tynnodd Adam Peat sylw at y ffaith y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofyn hwn, gan ei fod yn gyfrifol am reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac na ellid gwneud y trosglwyddiad ond trwy Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

- Mynegwyd pryder ynghylch y gystadleuaeth i ddewis landlord newydd gan na fyddai diddordeb ymysg Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig efallai mewn derbyn stoc tai cynghorau arbennig. Dywedodd Adam Peat y byddai awdurdodau yn gallu sefydlu corff i gymryd rheolaeth o'r stoc felly byddai un landlord arfaethedig o leiaf.

- Teimlai Aelodau ei bod yn bwysig i denantiaid allu cael cyngor annibynnol yngln â throsglwyddo, a chefnogent y cynnig yn y canllaw drafft fod rhaid i awdurdodau lleol benodi ymgynghorydd annibynnol i weithredu fel Cynghorydd Tenantiaid.

7.4 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried sylwadau'r Pwyllgor ar y canllaw drafft. Ail-ddywedodd Peter Law y byddai'n ystyried barn y Pwyllgor yn ogystal â chanlyniad yr adolygiad polisi. Addawodd y byddai'n ailgyhoeddi'r canllawiau os byddai angen yng ngoleuni canlyniad yr adolygiad polisi.

**Eitem 8: Strategaeth gweithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru – Datblygiad cymunedol: LGH-09-00 (p.6W)**

8.1 Eglurodd Peter Law fod yr ymrwymiad i gynhyrchu strategaeth gweithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru wedi codi o drafodaeth lawn ym mis Tachwedd 1999. Roedd y strategaeth drafft wedi'i ystyried yn barod gan Bwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru ac roedd yn awr yn ymgynghori gyda phwyllgorau pwnc yn ôl yr angen. Gwahoddodd sylwadau'r Pwyllgor ar y rhan o'r strategaeth oedd yn ymwneud â datblygiad cymunedol.

8.2 Dywedodd John Bader bod y dull *Cymunedau yn Gyntaf* o adfywio cymunedau wedi deillio o ganlyniad i broblemau arbennig Cymoedd De Cymru, gan gynnwys amddifadiad lluosog ac anfantais gymdeithasol. Y bwriad oedd y byddai *Cymunedau yn Gyntaf* yn darparu'r integreiddio a'r cydweithrediad strategol yr oedd rhaglenni a mentrau'r gorffennol oedd wedi'u targedu'n benodol at y Cymoedd wedi methu'i wneud. Roedd y gwaith o ddatblygu syniad *Cymunedau yn Gyntaf* yn mynd rhagddo, a byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori cychwynnol yn ei gyfarfod nesaf.

8.3 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Mynegwyd pryder yr Aelodau yngln ag effaith amddifadiad ar iechyd. Teimlent ei bod yn bwysig i *Gymunedau yn Gyntaf* gydnabod fod tai, amodau cymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus a'r amgylchedd i gyd yn cael effaith bwysig ar iechyd pobl. Hefyd roedd angen canolbwyntio ar ardaloedd gyda'r lefel uchaf o amddifadiad yn hytrach na mabwysiadu'r un dull gweithredu ar draws holl ardal yr awdurdod lleol.

- Roedd angen sicrhau nawdd cyson ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol oedd yn ymwneud ag adfywio cymunedau.

- Nodwyd bod angen cyfleusterau gofal plant o ansawdd da mewn llawer o gymunedau. Roedd yn bwysig hefyd ddarparu cyfle i rieni ddysgu sgiliau magu plant. Dywedodd John Bader fod y rhain yn faterion y byddid yn mynd i'r afael â hwy o fewn y fframwaith polisi cyffredinol oedd yn cael ei ddarparu gan *Gymunedau yn Gyntaf*.

8.4 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried bwrw ymlaen gyda llinyn

datblygu cymunedol y strategaeth weithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru.

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf: LGH-08-00 (minW)**

9.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Medi 2000**

**ATODIAD**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13 MEDI**

1. Addawodd Peter Law ddarparu dogfen ymgynghorol ‘rheol cost isaf’ ar gyfer Aelodau o dan Hawl i Brynu pan gâi ei gyhoeddi, ac i ddwyn papur gerbron y Pwyllgor Cadwedig ar ôl derbyn ymatebion i’r ymgynghoriad (paragraff 3.3).

2. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i roi adroddiad ar ei gyfarfod gyda’r Arglwydd Warner o fwrdd Cyfiawnder yr Ifanc yng nghyfarfod 18 Hydref (paragraff 3.4).

3.Cyfarwyddwr Lleihau Troseddau i Gymru i roi cyflwyniad i’r Pwyllgor (paragraff 3.4).

4. Gwahoddwyd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried barn y Pwyllgor ar gyllidebau awdurdodau lleol yn ei drafodaethau gyda’r Ysgrifennydd Cyllid (paragraff 4.5).

5. Pwyntiau amrywiol i Peter Law eu hystyried wrth sefydlu’r Uned Ystadegau Llywodraeth Leol newydd (paragraff 5.3).

6. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddosbarthu canllaw a rheoliadau drafft sy’n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol 2000 i’r Pwyllgor pan gânt eu cyhoeddi.

(paragraff 6.1).

7. Pwyntiau amrywiol i’r Ysgrifennydd Cynulliad eu hystyried wrth weithredu Deddf Llywodraeth

Leol 2000 (paragraff 6.4).

8. Y Pwyllgor i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ar y canllaw a'r rheoliadau drafft sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar 29 Tachwedd (paragraff 6.4).

9. Pwyntiau amrywiol i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu hystyried ar ganllawiau drafft trosglwyddo stoc tai (paragraff 7.4).

10. Pwyntiau amrywiol i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu hystyried wrth fwrw ymlaen â llinyn datblygu cymunedol y strategaeth weithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru. (paragraff 8.4).